



Ein Gweledigaeth

Yn falch o arwain y ffordd at ddyfodol gwell i Gymru trwy reoli'r amgylchedd ac adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Ein Diben

Drwy'r ddeddf newydd, sef Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, rhaid i ni

- geisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy;
- gweithredu egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ...wrth gyflawni ein swyddogaethau.

Cyflwyniad

Mae ein system rheoli amgylcheddol (EMS) yn helpu i ddatblygu Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i fod yn sefydliad rhagorol drwy gynnal ein hardystiad ISO14001:2015, ein hardystiad coedwig yn erbyn Safon Sicrwydd Coetiroedd y DU a thrwy leihau ein heffaith amgylcheddol a'n hól troed carbon ein hunain.

Dyma ein ffocws yn ystod eleni:

- lleihau ein hól troed carbon - datgarboneiddio;
- cynnal ein hardystiad coetir (Safon Sicrwydd Coetiroedd y DU) i Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru rydym yn ei rheoli;
- gwella statws y nodweddion dynodedig, mynediad a dehongliad ar y safleoedd gwarchodedig rydym yn eu rheoli;
- datblygu mecanweithiau i sicrhau mai teithio llesol a chynaliadwy yw'r dewis a ffefrir gan staff CNC sy'n cymudo ac ar gyfer teithiau busnes priodol.

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud yn bennaf â chynaliadwyedd amgylcheddol, yn hytrach na gweithredoedd neu ganlyniadau cynaliadwyedd ehangach. Gellir dod o hyd i adroddiadau sy'n ymwneud â chynaliadwyedd yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon. Yn ystod y blynyddoedd i ddod, byddwn yn parhau i wella ein hadrodd amgylcheddol corfforaethol wrth weithio tuag at Adrodd Integredig.

Crynodeb o Berfformiad

Eleni rydym wedi:

- cyrraedd ein targed i leihau ein hól troed carbon o 5% mewn perthynas â defnydd ynni mewn adeiladau a ddefnyddir gan staff a theithio busnes;
- cadw ardystiad coetir (Safon Sicrwydd Coetiroedd y DU) ar gyfer Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru rydym yn ei rheoli yn dilyn archwiliadau a gwiriadau annibynnol allanol;
- cwblhau 75% o darged archwilio rheolaeth Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a sicrhau bod unrhyw gamau gwella a nodwyd wedi'u gweithredu;
- nodi nifer y staff sy'n cerdded, beicio ac yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus ar gyfer cymudo a theithio busnes.

Tabl 1: Tabl sy'n crynhoi'r Adroddiad Amgylcheddol Corfforaethol

	Unedau	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
Allyriadau nwyon tŷ gwydr ¹	Defnydd (tCO ₂ e)	6,021	5,115	4,387	4,199
Ynni'r ystâd	Defnydd (miliwn kWh)	6.9	6.3	6.0	6.3
	Gwariant (£k)	657	776	618	583
Gwastraff yr ystâd	Cynhyrchwyd (tunelli)	864	1,424	1,141	966
	Gwariant (£k)	205	225	273	218
Dŵr yr ystâd	Defnydd (m ³)	78,395	76,283	50,908	40,115
	Gwariant (£k)	39	32	25	30

Mae Tabl 1 yn dangos newid perthynol ar gyfer meysydd allweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae rhagor o fanylion ynghylch pob un yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.


I grynhoi:

- gostyngodd allyriadau carbon yn 2018/19 o 4.3% o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol
- cynyddodd y defnydd o ynni yn 2018/19 o 3.8% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol
- gostyngodd y gwastraff a gynhyrchwyd yn 2018/19 o 15.3% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol
- gostyngodd y defnydd o ddŵr yn 2018/19 o 21.2% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol

¹ (Cwmpasau 1, 2 a 3 gan gynnwys teithio awyr/rheilffyrdd ac eithrio y tu hwnt i gwmpasau allyriadau)

Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr

Mae ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr isod:



Gostyngodd allyriadau carbon yn 2018/19 o 4.3% o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Cwmpas 1 cynyddodd allyriadau uniongyrchol o 1.3%, roedd hyn oherwydd y cynnydd yn y defnydd o nwy a thanwydd a ddefnyddir ar gyfer gwresogi.

Cwmpas 2 gostyngodd allyriadau ynni anuniongyrchol o 18.2%, roedd hyn oherwydd y gostyngiad yn y trydan a ddefnyddir mewn adeiladau a feddiannir a gostyngiad yn ffactor nwyon tŷ gwydr DEFRA ar gyfer trydan.

Cwmpas 3 cynyddodd allyriadau anuniongyrchol eraill o 3.5%, roedd hyn oherwydd cynnydd bychan yn y defnydd o gerbydau preifat, cerbydau llogi a milltiroedd awyr.

Tabl 2: Allyriadau nwyon tŷ gwydr

Allyriadau nwyon tŷ gwydr	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
Cwmpas 1: Allyriadau uniongyrchol (tCO ₂ e)	2,999	2,835	2,466	2,499
Cwmpas 2: Allyriadau ynni anuniongyrchol (tCO ₂ e)	2,048	1,662	1,317	1,077
Cwmpas 3: Allyriadau anuniongyrchol eraill (tCO ₂ e)	974	617	603	624
Cyfanswm gros allyriadau GHG (tCO₂e)	6,021	5,115	4,387	4,199
<i>Tu hwnt i'r cwmpasau (h.y. biomas)</i>	253	220	208	187

Nodyn 1: Data heb ei wirio'n allanol – Sicrwydd Cyfyngedig.

Nodyn 2: Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr anuniongyrchol Cwmpas 3 eraill yn cynnwys: teithio ar drên, teithio mewn awyren, teithio fflyd lwyd, teithio ceir prydles, teithio ceir llogi, dŵr a gwastraff.

Nodyn 3: Ni chaiff allyriadau Cwmpas 3 o brynu nwyddau a gwasanaethau, y defnydd o agregau mewn adeiladu a'r defnydd o bren eu cynnwys.

Ynni

Mae ein holl ddefnydd o ynni (sy'n cynnwys trydan, nwy o'r prif gyflenwad, LPG, olew gwresogi a biomas) mewn adeiladau a ddefnyddir gan staff a rhai heb staff wedi cynyddu o 3.8% yn seiliedig ar ddata'r flwyddyn flaenorol.

Gostyngodd y defnydd o drydan mewn adeiladau a ddefnyddir gan staff o 4.5%, o ganlyniad i osod goleuadau LED yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Cynyddodd y defnydd o drydan mewn safleoedd lle nad oes goruchwyliaeth megis gorsafoedd pwmpio a mesur o 15.8%.

Roedd gostyngiad yn y biomas a chynnydd yn yr LPG yn bennaf oherwydd nad oedd y boiler biomas yn ein canolfan ymwelwyr ym Mwlich Nant yr Arian yn gweithio yn 2018/19.

Roedd ychydig o gynnydd yn y nwy o'r prif gyflenwad (6.0%) ac olew gwresogi (13.4%) a ddefnyddiwyd, roedd hyn yn bennaf oherwydd gaeaf oerach na'r arfer.

Cynyddodd yr ynni rydym yn ei gynhyrchu o ynni adnewyddadwy (paneli PV) o 54% o 71,806 kWh i 110,598 kWh.

Cynyddodd yr ynni rydym yn ei gynhyrchu o ynni (micro-hydro) o 63% o 35,050 kWh i 57,281 kWh.

Roedd yr arbedion allyriadau carbon yn sgil y defnydd o drydan yn uwch na'r disgwyl oherwydd gostyngiad pellach yn ffactor trosi nwyon tŷ gwydr DEFRA ar gyfer trydan yn y DU yn 2018. Roedd hyn oherwydd gostyngiad sylweddol yn y trydan a gynhyrchwyd â glo a chynnydd yn y nwy naturiol ac adnewyddadwy a gynhyrchir.

Tabl 3: Defnydd o Ynni

Defnydd adnoddau - ynni yr ystâd	Unedau	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
Ynni a ddefnyddiwyd: Safleoedd a ddefnyddir gan staff	Defnydd (kWh)	5,550,100	5,209,072	4,918,340	4,973,616
	Defnydd (tCO ₂ e)	2,011	1,723	1,436	1,236
Ynni a ddefnyddiwyd: Safleoedd heb staff	Defnydd (kWh)	1,319,745	1,131,651	1,122,103	1,298,317
	Defnydd (tCO ₂ e)	610	466	395	367
Ynni adnewyddadwy: Wedi ei hunangynhyrchu	Cynhyrchwyd (kWh)	81,713	76,649	106,856	167,879
	Defnydd (% o'r ynni a ddefnyddiwyd)	1.4%	1.4%	2.2%	3.4%
Ynni a ddefnyddiwyd: Cyfanswm	Defnydd (kWh)	6,869,845	6,340,723	6,040,443	6,271,933
	Defnydd (tCO ₂ e)	2,621	2,189	1,830	1,603
	Gwariant (£k)	657	777	618	583

Dŵr

Gostyngodd y defnydd cyffredinol o'r prif gyflenwad dŵr o 10,793 m³. Roedd hyn oherwydd gostyngiad yn y dŵr a dynnwyd i weithredu safle ein deorfa bysgod o 36,721 m³ i 25,424 m³.

Cynyddodd y defnydd o ddŵr yn ein swyddfeydd o 492 m³ (8.9%) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd hyn yn bennaf oherwydd y cynnydd mewn dŵr yn ein dwy swyddfa fwyaf, Tŷ Cambria, Caerdydd, a Maes y Ffynnon, Bangor. Mae dwysedd ein defnydd dŵr (m³ / FTE) yn 3.1, mae hyn yn parhau'n is na'r cyfartaledd o 4.0 ar gyfer defnydd dŵr. ².

Gostyngodd y defnydd o ddŵr o'r prif gyflenwad yn ein safleoedd nad ydynt yn swyddfeydd o 18 m³ (0.3%) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Tabl 4: Defnydd Dŵr

Defnydd adnoddau – dŵr ar yr ystâd	Unedau	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
Dŵr a gyflenwir - defnydd swyddfeydd: - Prif gyflenwad - Tynnu dŵr	Defnydd (m ³) Defnydd (m ³)	6,830 3	5,923 15	5,555 22	6,047 32
Dŵr a gyflenwir – defnydd nad yw ar gyfer swyddfeydd: - Prif gyflenwad - Tynnu dŵr	Defnydd (m ³) Defnydd (m ³)	5,555 65,981	5,488 64,850	6,339 39,014	6,321 27,715
Dwysedd defnydd dŵr (ar gyfer swyddfeydd)	m ³ fesul FTE	3.4	3.3	3.1	3.3
Dŵr a gyflenwir: Cyfanswm	Defnydd (m³)	78,395	76,283	50,908	40,115
	Defnydd (tCO₂e)	27	26	18	14
	Gwariant (£k)	39	32	25	30

Teithio

Mae ein hanghenion teithio'n cynnwys: teithio i reoli safleoedd, ymateb i ddigwyddiadau amgylcheddol difrifol, cymryd samplau, delio â llifogydd, cyfarfodydd safle a theithio rhwng swyddfeydd.

Yn 2018/19, cynyddodd cyfanswm ein teithio busnes o 3.7%; fodd bynnag, gostyngodd yr allyriadau carbon cyfatebol yn sgil trafndiaeth o 0.8%, oherwydd cynnydd yn y cerbydau trydan a ddefnyddir i deithio, cerbydau bathodyn carbon isel a theithio ar drên.

² Cyfartaledd = 4m³ fesul FTE (Ffynhonnell: Dangosyddion Perfformiad Allweddol Dŵr ar gyfer swyddfeydd a gwestai. C657 CIRIA www.ciria.org)

Byddwn yn parhau i leihau'r teithio rhwng swyddfeydd gan ddefnyddio ein coeden penderfynu ar deithio a thrwy gynyddu'r defnydd o gynadledda skype, a fydd yn lleihau'r angen i deithio ymhellach.

Tabl 5: Manylion teithio

Teithio mewn cerbyd	Unedau	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
Cerbydau bathodyn	Milltiroedd a deithiwyd	5,833,839	6,064,812	5,440,945	5,562,246
	Gwariant (£k)	800	768	749	789
Cerbydau prydlles	Milltiroedd a deithiwyd	1,649,345	191,730	0	0
	Gwariant (£k)	162	18	0	0
Cerbydau llwyd ³	Milltiroedd a deithiwyd	552,343	639,064	590,998	614,868
	Gwariant (£k)	244	287	266	277
Llogi	Milltiroedd a deithiwyd	256,654	322,505	261,039	277,390
	Gwariant (£k)	59	74	88	124
Trên	Milltiroedd a deithiwyd	865,693	864,366	938,418	993,213
	Gwariant (£k)	221	223	183	328
Awyr	Milltiroedd a deithiwyd	18,898	71,057	33,661	50,299
	Gwariant (£k)	4	19	5	7
Beic	Milltiroedd a deithiwyd	1,944	2,346	2,301	3,714
	Gwariant (£k)	< 1	< 1	< 1	< 1
Beic modur	Milltiroedd a deithiwyd	4,475	2,447	1,735	1,155
	Gwariant (£k)	1	< 1	< 1	< 1
Trydan	Milltiroedd a deithiwyd				32,832
Cyfanswm teithio mewn cerbyd	Milltiroedd a deithiwyd	9,183,191	8,158,327	7,269,097	7,535,717
	Defnydd (tCO₂e)	2,629	2,249	2,019	2,002
	Gwariant (£k)	1,493	1,371	1,295	1,536

Lleihau a Rheoli Gwastraff

Cafwyd gostyngiad yn y cyfanswm gwastraff a waredwyd gan y sefydliad yn 2018/19 o 15.3%, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Cynyddodd yr allyriadau carbon yn ymwneud â gwastraff i'w waredu o 0.7% oherwydd cynnydd yn y gwastraff a aeth i'w dirlenwi.

³ Cerbydau llwyd yw cerbydau preifat staff

Cynyddodd gwastraff a anfonwyd ar gyfer ei losgi (wedi'i ddargyfeirio o safleoedd tirlenwi) am y drydedd flwyddyn yn olynol.

Tabl 6: Gwastraff a Gynhyrchwyd

Gwastraff a Gynhyrchwyd	Unedau	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19
Gwastraff swyddfa	Defnydd (tunelli)	266	241	213	286
Anfonwyd i safle tirlenwi	Defnydd (tCO ₂ e)	122	101	125	168
	Gwariant (£k)	25	22	24	25
Gwastraff swyddfa	Defnydd (tunelli)	451	934	600	431
Ailgylchwyd / aildefnyddiwyd	Defnydd (tCO ₂ e)	10	20	13	9
Gwastraff swyddfa A losgwyd	Defnydd (tunelli)	14	15	27	31
	Defnydd (tCO ₂ e)	< 1	< 1	< 1	< 1
Gwastraff wedi'i dipio'n anghyfreithlon	Defnydd (tunelli)	133	234	301	218
	Defnydd (tCO ₂ e)	32	65	135	98
Cyfanswm gwastraff	Defnydd (tunelli)	864	1,424	1,141	966
	Defnydd (tCO₂e)	164	186	274	276
	Gwariant (£k)	205	225	273	218

Caffael Cynaliadwy

Ein gweledigaeth ar gyfer caffael yw darparu arweinyddiaeth a chyfarwyddyd caffael effeithiol o blaid cenhadaeth a gwerthoedd Cyfoeth Naturiol Cymru ac i ymgorffori'r cysyniadau sylfaenol o gorff sy'n dysgu ac sy'n gosod Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn brif egwyddor ganolog.

Ein huchelgais ar gyfer caffael yw defnyddio ein pŵer masnachol yn ddoeth ac yn strategol, ac i gael ein cydnabod fel esiampyl heb ei hail o gaffael ac o ymarfer masnachol arloesol, cynaliadwy a modern wrth i ni wneud ein gorau glas i sicrhau gwelliant parhaus yn ein perfformiad. Deallwn yr angen i gydymffurfio, ond mae'n bwysig i ni wneud y broses brynu mor hawdd â phosibl i staff. I wneud hyn, mae angen i ni ddatblygu perthnasau dibynadwy â staff ac i ymwneud â phenderfyniadau allweddol o fewn y sefydliad.

Gall "caffael" fel gweithred a gweithgaredd strategol, alluogi a dylanwadu'n bositif ar ganran sylweddol o bopeth mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei wneud. Gall gwneud penderfyniadau caffael gwybodus helpu i gyflawni ein rhaglenni gwaith, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau yn brydlon ac o fewn y gyllideb wrth i ni hyrwyddo effeithlonrwydd a chyfrannu at ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru.

Gall caffael effeithiol helpu i gyflawni ystod eang o agendâu economaidd-gymdeithasol (gan gynnwys cydraddoldeb ac amrywiaeth, economi lwyddiannus "leol", trydydd sector ffynnianus, grymuso cymunedau, gwerth am arian a rheolaeth adnoddau naturiol) a gall fod yn allweddol i Cyfoeth Naturiol Cymru wrth inni lwyddo i gyflawni'r saith nod llesiant.

Newid mewn Ymddygiad

Fel rhan o'n gwaith i ymgorffori ein System Rheoli Amgylcheddol i ddiwylliant ein sefydliad, rydym wedi darparu nifer o gyrsiau hyfforddi i staff. Mae meysydd hyfforddi wedi cynnwys codi ymwybyddiaeth o'n gweithdrefnau amgylcheddol allweddol, rheoli gwastraff, ymateb i ddigwyddiadau a Safon Sicrwydd Coetiroedd y DU.

Digwyddiadau amgylcheddol

Cafwyd 13 o ddigwyddiadau amgylcheddol oherwydd ein gwaith ni neu waith ein contractwyr. Mae hyn yn cymharu â phymtheg digwyddiad amgylcheddol yn ystod y flwyddyn flaenorol. Roedd un digwyddiad amgylcheddol categori uchel yn 2018/19 yn ymwneud â difyg cydymffurfiaeth posibl â thrwydded Rhywogaethau Ewropeaidd a Warchodir. Pan fydd digwyddiadau yn sgil ein gwaith (neu waith ein contractwyr) yn digwydd, rydym yn adolygu'r hyn sydd wedi digwydd, ac yn gweithredu i fynd i'r afael ag achos sylfaenol y digwyddiad.

Llywodraethu ac Adrodd

Rydym yn adrodd ar ein hól troed carbon fel rhan o'n fframwaith perfformiad, sy'n cael ei adrodd gan y Tîm Gweithredol i'r Bwrdd (mewn sesiwn agored gyhoeddus) deirgwaith y flwyddyn.

Rydym yn casglu data sy'n cael ei ddefnyddio o fewn yr adroddiad cynaliadwyedd hwn trwy gyfuniad o ddarlleniadau mesuryddion (e.e. nwy, trydan), anfonebau (e.e. yr hyn a brynwyd ar gerdyn tanwydd), data cyflenwyr (e.e. milltiroedd trên) a data cyllid, gan ddefnyddio'r ffynhonnell/ffynonellau cywiraf sydd ar gael gennym. Rydym hefyd yn ceisio lleihau'r defnydd o unrhyw ddata a amcangyfrifir yn ein hadrodd, ac rydym yn gweithio i wella yn y maes hwn.

Prosiect Carbon Bositif

Cafodd Prosiect Carbon Bositif CNC ei ariannu gan Lywodraeth Cymru i ddangos arweinyddiaeth wrth ddatgarboneiddio yn sector cyhoeddus Cymru a thu hwnt.

Yn ystod 2018/19, rydym wedi:

Datblygu Cynllun Galluogi sy'n nodi uchelgais CNC ar gyfer y sefydliad. Mae hwn wedi cael ei dderbyn a'i gymeradwyo gan y grŵp llywio prosiect, Bwrdd Rheoli Busnes Cyfoeth Naturiol, a bydd yn cael ei gyflwyno'n fuan i fwrdd CNC. Rydym yn datblygu Cynllun Gweithredu a fydd yn cyflawni'r Cynllun Galluogi hwn, gan raglennu a blaenoriaethu cyfleoedd lliniaru i'r sefydliad ar sail cynllun tair i bum mlynedd ar gyfer datgarboneiddio.

Cyflwyno cyfres o brosiectau datgarboneiddio yn cynnwys: chwe phrosiect tir mawn ar ystâd CNC, adfer lefelau dŵr ar safleoedd corstir neu ffeniai wedi'u haddasu gan gynnwys Cors Bodeilio a Hafod Elwy; prosiectau bach i hwyluso teithio llesol neu effeithlonrwydd ynni yn ein swyddfeydd - megis gosod cawod newydd yn Threfynwy, beic trydan yn Maes-y-Ffynnon ac inswleiddiad to ychwanegol yng Nghlawdd Newydd.

Gweithio gydaag arbenigwyr yn y diwydiant i wella ein sail dystiolaeth ar gyfer prosiectau datgarboneiddio yn y dyfodol, yn cynnwys:

- Asesiad strategol o'r potensial i gyflwyno cerbydau trydan a seilwaith gwefru ar draws ystâd y CNC, gan ystyried cyfansoddiad fflyd pob swyddfa, manylion teithio o'r system archebu cerbydau a'r cysylltiadau trydanol ar y safle. Mae'r gwaith hwn hefyd wedi cael ei hysbysu gan arolwg teithio staff sy'n rhedeg ar y cyd â'r tîm EMS a'r grŵp teithio llesol a dderbyniodd >900 ymateb.
- Asesiadau ar safle o'r potensial am osodiadau ynni adnewyddadwy gwynt, dŵr a haul ar raddfa fechan er mwyn cyflenwi pŵer i swyddfeydd a chanolfannau ymwelwyr CNC (a gafodd ei flaenoriaethu yn y gorffennol mewn dadansoddiad desg). Mae'r gwaith hwn yn cynnwys datblygu dyluniadau technegol ar gyfer gosodiadau addawol ac archwilio cyfyngiadau o ran cysylltiadau â'r grid.

Parhau i gyhoeddi ac i rannu gwaith y prosiect, fel testun cyfeirio i sefydliadau eraill sy'n gwerthuso ac yn rheoli eu heffaith garbon ei hunain. Mae cyhoeddiadau'n cynnwys: yr adroddiad technegol "Cyfrifo statws carbon net CNC", sy'n manylu ar y dull a ddefnyddir i amcangyfrif allyriadau a lefelau dal a storio carbon y sefydliad; comisiynu adroddiadau tystiolaeth i asesu tir mawn a choetir CNC ac allyriadau nwyon tŷ gwydr ynghyd ag adolygiad strategol o garbon y fflyd; astudiaethau achos ar ein prosiectau arddangos a gwblhawyd yn ymwneud ag adfer tir mawn, cerbydau trydan a seilwaith gwefru, allyriadau caffael a gosod paneli solar ar asedau hydrometrig. Rydym yn parhau i gwblhau ein hardoddiad technegol ar liniaru sy'n pennu costau ac arbedion carbon yr holl gyfleoedd i ddatgarboneiddio a nodwyd ar gyfer y sefydliad.

Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i hysbysu datblygiad posibl dull adrodd ar allyriadau i'r sector cyhoeddus gan ddangos cynnydd tuag at gyrraedd yr uchelgais o fod yn garbon-niwtral erbyn 2030, yn cynnwys: drafftio arolwg ar gyfer cyrff sector cyhoeddus sy'n asesu dulliau adrodd cyfredol; cynnal contract i archwilio cryfderau a gwendidau'r dulliau adrodd a ddefnyddir; a rhannu ein deunyddiau ar stondin yn ystod lansiad cynllun carbon isel cyntaf Llywodraeth Cymru.

Strategaeth y Dyfodol

Dros y tair blynedd nesaf, yn unol â'n strategaeth gorfforaethol ar gyfer 2017/22, rydym eisiau:

- Cyflwyno cynllun gweithredu carbon bositif 2019/22 a fydd yn cynnwys: adeiladau wedi eu hól-ffitio â PV haul, gostyngiad yn y tanwydd a ddefnyddir gan y fflyd bathodyn drwy osod telemateg, datblygu seilwaith gwefru i gerbydau trydan, cynyddu milltired cerbydau trydan, dynodi a chyflwyno rhaglen o brosiectau tir mawn
- Datblygu mecanweithiau i sicrhau mai teithio llesol a chynaliadwy yw'r dewis a ffeirir gan staff CNC sy'n cymudo ac ar gyfer teithiau busnes priodol
- Ceisio gostwng cymaint â phosibl y defnydd o blastig yn CNC yn cynnwys Plastigau Un-tro a pheycynnu
- Parhau i gynnal yr ardystiad coetir (Safon Sicrwydd Coetiroedd y DU) i Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru